# Adroddiad Monitro Safonau’r Gymraeg
# 1 Ebrill 2024 - 31 Mawrth 2025

## Cyflwyniad

Rhoddodd Comisiynydd y Gymraeg hysbysiad cydymffurfio i ColegauCymru ar 25 Gorffennaf 2016.

Roedd yr hysbysiad cydymffurfio hwn yn amlinellu dyletswydd ColegauCymru i gyflawni Safonau statudol y Gymraeg, sef Safonau a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru o dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011. Roedd y Mesur hwn yn rhoi statws swyddogol i’r Gymraeg, gyda’r nod na ddylai’r Gymraeg gael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Mae cyflwyno Safonau’r Gymraeg, sef rhestr o’r hyn y mae’n rhaid i sefydliadau ei wneud a’i gyflawni yn y Gymraeg, yn sicrhau bod y rheini yng Nghymru sy’n dymuno byw eu bywydau drwy’r Gymraeg yn gallu gwneud hynny. Mae’r Safonau hyn yn rhoi rhyddid ieithyddol i unigolion ddefnyddio’r Gymraeg yng Nghymru.

Fel rhan o'r broses gydymffurfio, mae Safonau’r Gymraeg yn ei gwneud yn ofynnol i ColegauCymru gyflwyno adroddiad blynyddol ym mhob blwyddyn ariannol (Ebrill - Mawrth), a hwnnw’n rhoi sylw i sut y mae’r sefydliad yn glynu wrth y Safonau Cyflenwi Gwasanaethau, y Safonau Llunio Polisi a'r Safonau Gweithredu. Mae darpariaeth o fewn y Safonau hefyd sy’n ymwneud â chyhoeddi a rhoi cyhoeddusrwydd i’r Adroddiad Blynyddol. Mae’r Adroddiad hwn yn dangos y cynnydd y mae ColegauCymru wedi’i wneud tuag at gydymffurfio â’r Safonau rhwng 1 Ebrill 2024 a 31 Mawrth 2025.

Mae ColegauCymru yn credu ei fod yn ymateb i’r Safonau mewn ffordd gadarnhaol. Mae’r holl staff wedi cael hyfforddiant Ymwybyddiaeth o’r Gymraeg ac mae eu gallu yn y Gymraeg wedi cael ei asesu’n ffurfiol fel rhan o’u swyddi yn ColegauCymru. Fel rhan o friffiau wythnosol y tîm cyfathrebu, mae diweddariadau rheolaidd yn cael eu rhoi am sut i wella arferion gweithio yn unol â hynny, ynghyd â hyrwyddo a hwyluso defnyddio’r Gymraeg, ac yn fwy ffurfiol yn ein diwrnodau tîm i ffwrdd ddwywaith y flwyddyn.

Mae ColegauCymru wedi ymrwymo i annog yr holl dîm i ddefnyddio’u sgiliau Cymraeg gwaeth beth yw lefel eu gallu, gan greu amgylchedd gweithio dwyieithog lle bydd defnyddio’r Gymraeg yn cael ei groesawu a’i annog. Rydym hefyd yn cefnogi dysgwyr a siaradwyr llai hyderus i ddefnyddio'r iaith mewn amgylchedd cefnogol heb farn.

## Cefndir

Cyfres o ofynion sy’n rhwymo’n gyfreithiol yw'r Safonau, a'r rheini'n ceisio gwella'r gwasanaethau dwyieithog y gall pobl Cymru ddisgwyl eu cael gan nifer o gyrff cyhoeddus a statudol, gan gynnwys ColegauCymru. Mae gan ColegauCymru gyfrifoldeb i roi gwasanaethau dwyieithog, gan sicrhau nad yw’r Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na’r Saesneg.

Mae gofyn i ColegauCymru gydymffurfio â’r safonau hyn:

- Cyflenwi Gwasanaethau
- Llunio Polisi
- Gweithredu

- Cadw Cofnodion

Nod y Safonau yw:

- Egluro i sefydliadau beth yw eu dyletswyddau o ran y Gymraeg.
- Ei gwneud yn fwy eglur i siaradwyr Cymraeg pa wasanaethau y gallant ddisgwyl eu cael yn Gymraeg.
- Gwneud gwasanaethau Cymraeg yn fwy cyson a gwella’u hansawdd.

## Cyfrifoldeb dros y Gymraeg

Y Rheolwr Cyfathrebu sy’n arwain ar y gwaith hwn ar draws y sefydliad. Gan weithio gyda’r Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus, mae’r ddwy’n sicrhau fod gweithdrefnau ar waith i helpu staff i ddeall eu rôl wrth gynorthwyo ColegauCymru i gyflawni'r Safonau.

Mae canllawiau ar gael i'r holl staff i gynorthwyo cydymffurfiad. Mae prif elfennau'r canllawiau yn rhoi sylw i oblygiadau ymarferol gweithio o ddydd i ddydd i gyflawni'r Safonau, megis sut i ateb y ffôn; sut i drefnu cyfarfodydd; a chymryd dewis iaith cyfranogwyr i ystyriaeth.

Rheolir materion cydymffurfio iaith Gymraeg o ddydd i ddydd gan y Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus a'r Rheolwr Cyfathrebu.

Mae'r Swyddog Polisi yn sicrhau bod y Gymraeg yn cael ei hystyried yn weithredol a'i hymgorffori ym mhob maes o ddatblygu polisi a gweithgarwch materion cyhoeddus. Mae hyn yn cynnwys asesu effaith bosibl cynigion polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg, cynghori cydweithwyr ar arfer gorau i hyrwyddo dwyieithrwydd, a sicrhau cydymffurfiaeth â safonau a deddfwriaeth berthnasol y Gymraeg. Mae'r rôl hefyd yn cynnwys gweithio ar y cyd ar draws y sefydliad a chyda phartneriaid allanol i hyrwyddo'r iaith Gymraeg a chefnogi ei normaleiddio mewn addysg bellach a thu hwnt.

## Gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg

Mae gan ColegauCymru a Chomisiynydd y Gymraeg berthynas da, ac maent yn cefnogi’i gilydd mewn wrth hyrwyddo’r Gymraeg ar y cyd mewn addysg ôl-16.

Nod cydweithio a phartneriaethau o’r fath yw tynnu sylw at bwysigrwydd sgiliau Cymraeg mewn addysg academaidd a galwedigaethol, gan gynyddu’r ddarpariaeth Gymraeg/ddwyieithog sy’n cael ei chynnig fel rhan o’r cwricwlwm. Mae’n fwriad rhoi cyhoeddusrwydd hefyd i rôl hollbwysig colegau addysg bellach wrth helpu cymunedau dwyieithog i ffynnu a sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn economaidd.

Mae ColegauCymru wedi ymrwymo i gefnogi nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

## Datblygu cyfleoedd i ddysgu Cymraeg

Cynigir hyfforddiant iaith Gymraeg i bob aelod o staff i gefnogi gweithrediadau busnes a datblygiad unigol. Mae ColegauCymru yn talu costau a/neu ryddhau staff o’r gwaith i’r diben hwn.

Rydym yn hyrwyddo cyrsiau blasu Cymraeg fer ar-lein i staff.

## Llwyddiannau ar gyfer y cyfnod 2024/25

- Haf 2024 - Cynhaliwyd diwrnod i ffwrdd i staff ColegauCymru yng Ngholeg Gŵyr Abertawe, a oedd yn cynnwys hyfforddiant gloywi i staff ar gydymffurfiaeth â'r Safonau ac arfer gorau gyda phwyslais ar gydweithwyr i "ddefnyddio'r Gymraeg sydd ganddyn nhw" yn eu gwaith o ddydd i ddydd.
- Mae ColegauCymru wedi hwyluso aelod o staff i gofrestru ar gwrs Cymraeg Lefel Mynediad.
- Mynychodd y Rheolwr Cyfathrebu sesiwn ar-lein a oedd yn canolbwyntio ar adroddiad Comisiynydd y Gymraeg ar gyfer 2023-2024 - *Cyflawni Newid Gyda'n Gilydd*, a rannodd eu canfyddiadau yn dilyn monitro cydymffurfiaeth dros y flwyddyn ac i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith o osod canlyniadau rheoleiddio yn dilyn yr ymgynghoriad.
- Derbyniodd 3 aelod newydd o staff sesiynau sefydlu a oedd yn cynnwys sesiwn hyfforddi cydymffurfiaeth Safonau'r Gymraeg un-i-un 30 munud wedi'u teilwra i feysydd gwaith penodol.
- Ym mis Mehefin 2024, mynychodd ColegauCymru sesiwn Gwybodaeth Comisiynydd y Gymraeg ar Hyrwyddo Cydymffurfiaeth.
- Ym mis Hydref 2024, roedd ColegauCymru yn falch o ymateb i ymgynghoriad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol *Tuag at Cymraeg 2050 - Cynllun Addysg Bellach a Phrentisiaethau*. Croesawodd ColegauCymru y themâu yn y strategaeth: profiad y dysgwr; capasiti staffio; darpariaeth; adnoddau; asesu a chymwysterau; ac ymgysylltu â chyflogwyr. Rydym yn cydnabod blaenoriaethu pynciau, er y dylid nodi bod awydd o fewn y sector i golegau gael mwy o hyblygrwydd i ddiffinio eu meysydd pwnc blaenoriaeth eu hunain, gan weithio gyda Phartneriaethau Sgiliau Rhanbarthol lle bo'n briodol - i adlewyrchu'r galw a'r amgylchiadau lleol. O ystyried pwysigrwydd yr economi sylfaenol yng Nghymru, byddem yn croesawu ystyriaeth bellach o'r sectorau hyn. O ran asesu yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog, mae angen gwaith pellach i ddeall yn well y rhesymau sy'n gyrru penderfyniadau dysgwyr i gymryd asesiad trwy gyfrwng y Gymraeg neu drwy gyfrwng y Saesneg. Os ydym am gyrraedd y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, mae'n hanfodol bod dull system addysg gyfan yn cael ei fabwysiadu.
- Ym mis Hydref 2024 ymatebodd ColegauCymru i ymgynghoriad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc a Phrentisiaethau'r Senedd ar *Bil y Gymraeg ac Addysg (Cymru)*. Mae ColegauCymru yn cefnogi prif nod y Bil, sef sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd diwedd addysg orfodol fel defnyddwyr Cymraeg annibynnol. Fodd bynnag, yn ein hymateb, rydym yn tynnu sylw at sawl maes o fewn Cylch Gorchwyl yr ymchwiliad lle byddem yn croesawu mwy o eglurder.
- Cefnogodd ColegauCymru ymgyrch cyfryngau cymdeithasol *Defnyddia dy Gymraeg* ym mis Tachwedd/Rhagfyr 2024. Mae'r ymgyrch yn annog pobl i ddefnyddio eu Cymraeg bob dydd mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd, yn y gwaith, gyda busnesau, gwasanaethau cyhoeddus, wrth chwarae, yn yr ysgol - lle bynnag y gallant.
- Ym mis Tachwedd 2024, hwylusodd ColegauCymru sesiwn hyfforddi i lywodraethwyr colegau. Wedi'i chynnal gan Uwch Reolwr Academaidd a Chofrestrydd Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Dafydd Trystan, ymdriniodd y sesiwn â strategaeth yr iaith Gymraeg ar gyfer Cymraeg 2050, gyda ffocws ar addysg bellach a'r gwaith sydd ei angen i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg (hyderus) erbyn 2050.
- Parhaodd y Rheolwr Cyfathrebu i gynnal gwiriadau rheolaidd ar hap ar draws holl adrannau ac allbwn ColegauCymru i sicrhau cydymffurfiaeth ac arfer gorau.
- Cynhaliwyd ail sesiwn hyfforddi staff cydymffurfio â'r iaith Gymraeg ar gyfer y cyfnod hwn ym mis Rhagfyr 2024 yng Ngholeg Merthyr Tudful. Ffocws y sesiwn hon oedd *Cydymffurfio yw'r safon ofynnol - rydym wedi ymrwymo i gyflawni arfer gorau lle bynnag y bo modd.*

## Cwynion - yn unol â Safon 141

**Cyflenwi Gwasanaethau - mae 64 o Safonau Cyflenwi Gwasanaethau yn berthnasol i ColegauCymru.**
Nid oes unrhyw gwynion wedi dod i law am gydymffurfio â'r Safonau Cyflenwi gwasanaethau.

**Llunio Polisi - mae 9 o Safonau Llunio Polisi yn berthnasol i ColegauCymru.**
Nid oes unrhyw gwynion wedi dod i law am gydymffurfio â'r Safonau Llunio Polisi.

**Gweithredu - mae 42 o Safonau Gweithredu yn berthnasol i ColegauCymru.**
Nid oes unrhyw gwynion wedi dod i law am gydymffurfio â'r Safonau Gweithredu.

## Sgiliau Cymraeg a dysgu Cymraeg - yn unol â Safon 145

Sgiliau Cymraeg staff ColegauCymru ar 31 Mawrth 2025. Cynhaliwyd archwiliad sgiliau iaith Gymraeg staff gyda'r canfyddiadau canlynol:

- Mae 3 o'r 17 aelod o staff yn siaradwyr Cymraeg rhugl.

## Recriwtio - yn unol â Safon 148

Dyma nifer y swyddi newydd a swyddi gwag a hysbysebwyd yn ystod y flwyddyn yn ôl categori:

(i) sgiliau yn y Gymraeg yn hanfodol: 0 swydd
(ii) byddai angen dysgu sgiliau yn y Gymraeg ar ôl penodi i'r swydd: 0 swydd
(iii) sgiliau yn y Gymraeg yn ddymunol: 3 swydd
(iv) dim angen sgiliau yn y Gymraeg: 0 swydd

Mae pob swydd yn cael ei hysbysebu naill ai fel sgiliau iaith Gymraeg hanfodol neu ddymunol. Rydym yn egluro lefel y sgiliau sydd eu hangen i gyd-fynd â chyfrifoldebau'r rôl. Mae'r disgrifiadau swyddi a thudalennau glanio'r swyddi ar y wefan yn nodi'n glir bod ColegauCymru yn sefydliad dwyieithog balch a'n bod yn croesawu gohebiaeth a cheisiadau yn y Gymraeg. Rydym hefyd yn hysbysebu'n glir ein bod yn annog ac yn cefnogi staff i ddysgu, datblygu a defnyddio eu sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle.

## Cysylltiadau

Rachel Cable, **Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus**
Lucy Hopkins, **Rheolwr Cyfathrebu**

Cyfeiriad: U7, Cae Gwyrdd Greenmeadow Springs, Tongwynlais, Caerdydd, CF15 7AB.
Ffôn: 029 2052 2500 (croesewir galwadau yn Gymraeg ac yn Saesneg).
Ebost: helo@colegaucymru.ac.uk

Mae ColegauCymru yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Byddwn yn ymateb i ohebiaeth a gawn yn Gymraeg yn y Gymraeg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Elusen Gofrestredig Rhif 1060 182, Cwmni Cofrestredig Rhif 2832103.